# <u>CYNGOR CYMUNED BUAN</u>

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, gynhaliwyd nos Iau, 09 Mehefin, 2022
Yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy

Presennol:

Cynghorwyr:

Hughie Williams – Cadeirydd

Wynne Davies,
Catherine Hughes
Tesni Jones
Gareth Roberts
Phil Roberts

Cynghorydd Sirol – Anwen Davies

Nerys Williams - Clerc

## 1. Ymddiheuriadau –

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cynghorydd Hughie Williams.

Cafwyd ymddiheuriadau gan:

Nia Wyn Jones
Einir Lewis
Dafydd Ll. Williams

## 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cadarnhawyd cofnodion 12 Mai, 2022 yn gywir gan y Cynghorydd Tesni Wyn Jones ac fe eiliwyd gan y Cynghorydd Catherine Hughes.

## 3. Materion yn codi o'r cofnodion:-

*Gor-yrru ym Mhentref Rhydyclafdy –*

Cafwyd ymateb gan Iwan ab Trefor, Adran Drafnidaeth Cyngor Gwynedd (e-bost dyddiedig 1 Mehefin, 2022) yn cadarnhau bod problem gor-yrru yn bodoli yn Rhydyclafdy ac ei fod wedi danfon y gŵyn ymlaen i'r Heddlu a Ganbwyll.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc yrru e-bost at Iwan ab Trefor eto yn gofyn a fuasai yn bosib iddo anfon at Yr Heddlu a Ganbwyll yn eu gwahodd i gyfarfod o Gyngor Buan a gynhelir ar 14 Gorffennaf, 2022 yn Tu Hwnt i'r Afon Rhydyclafdy er mwyn i'r cynghorwyr gael y cyfle i roi eu barn ar y sefyllfa.

3. Ymatebion i ohebiaeth

Dim gohebiaeth.

4. Materion Ariannol

Nid oedd y cysoniad banc am fis Mai wedi cyrraedd cyn y cyfarfod heno ac addawodd y Clerc y buasai yn ei hafnon ar e-bost i bawb unwaith y byddai wedi ei derbyn.

Y sieciau isod wedi cael eu harwyddo gan ddau Gynghorydd ar ddiwedd y cyfarfod.

| | | |
|---|---|---|
| Cath Becket, Tu Hwnt i'r Afon | £20.00 | Siec Rhif 200672 |
| Nerys Williams | £111.79 | Siec Rhif 200673 |
| Cyllid a Thollau (Mis 3) | £28.00 | Siec Rhif 200674 |

5. Materion Cynllunio

Cais Cynllunio Rhif C22/0498/33/DT – Dymchwel estyniad cefn presennol a chodi estyniad Newydd ar gefn tŷ annedd – Lodge Uchaf, Boduan.

Trafodwyd y cais.

Penerfynwyd: Dim Gwrthwynebiad.

6. Datgan Diddordeb

Neb yn datgan diddordeb.

7. Unrhyw fater arall

*Trafodwyd yr isod ynglŷn â materion priffyrdd*.

Pensarn Boduan – dŵr yn croesi'r lôn - angen i Gyngor Gwynedd fynd i ymweld er mwyn datrys y broblem.

Arwydd 'BODUAN' wedi cancro ac yn flệr - meddwl y buasai yn ddoeth o beth cael un newydd cyn yr Eisteddfod, neu cael ei drwsio a'i dwtio.

Adroddwyd hefyd bod llygaid cathod sydd ar y lôn drwy Boduan tuag at y Ffôr i gyd wedi torri a bod wir angen rhai newydd yno.

Man parcio ger Tai'rallt, Boduan – adroddodd y Cynghorydd Sirol nad oedd neb wedi dod yn ôl ati o Gyngor Gwynedd na Chyfoeth Naturiol Cymru i drafod y llecyn parcio

Adroddwyd fod tyfiant ger Bodfel, Efailnewydd wedi cael ei dorri a'i bod yn haws o lawer gweld i fynd i'r lôn.

Addawodd y Cynghorydd Anwen Davies gysylltu â'r adrannau perthnasol ynglŷn â'r materion uchod.

Cafwyd gwybodaeth bod ardal Efailnewydd a Buan wedi ymuno i godi arian at Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023.

Adroddodd y Clerc ei bod wedi anfon y wybodaeth angenrheidiol ar gyfer archwiliad at yr Archwilydd Mewnol ond ei bod hyd yn hyn heb gael ateb.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45 p.m.

12. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf – SYLWER AR Y NEWID YN Y MAN CYFARFOD

Nos Iau, 14 Gorffennaf, 2022, yn Talybont, Rhydyclafdy am 7.30 p.m.